**Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD** **EDC 18-02(p7)**

**Dyddiad:** **12 Rhagfyr 2002**
**Amser:** **9.00 i 12.30**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd**
**Teitl :** **AMRYWIADAU ARIANNOL A CHYMHORTHION GWEITHREDU - ADRODDIAD CYNNYDD**

**Y Mater o dan Sylw**

Mae'r papur hwn yn bodloni'r ymrwymiad a wnes i yng Nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 28 Chwefror i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y datblygiadau a wnaed ers y papur (EDC08-02) ar gyfer y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 8 Mai 2002, ac yn enwedig yn dilyn datganiad y Canghellor cyn y Gyllideb ar 27 Tachwedd.

**Y sefyllfa ym mis Mai**

*Mesurau y cytunwyd arnynt neu a roddwyd ar waith eisoes:*

- Gwella Cynllun Rhyddhad Trethi Gwledig;
- Esemptiadau treth stamp hyd at £150,000 ar yr holl drafodion eiddo a weithredwyd yn 363 o wardiau yng Nghymru;
- Aildrefnu rhaglenni cymorth ariannol i fusnesau Llywodraeth y Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru o Ebrill 2002;
- Rhoi ad-daliadau Cymorth Cyfraddau Llog Cyllid Cymru yr un pryd â chronfa fenthyg Amcan 1;
- ELWa i helpu i roi hyfforddiant i gwmnïau o fis Ebrill 2002.

*Cynlluniau y cytunwyd arnynt eisoes ond sydd o hyd yn cael eu datblygu:*

- Cytunwyd ar Gredyd Treth Buddsoddi mewn Cymunedau ar gyfer y flwyddyn dreth nesaf;
- Gwella rhaglenni SMART Cymru o fis Ebrill 2003 ymlaen.

*Mesurau na chytunwyd arnynt hyd yma, ond sy'n cael eu hystyried gan Lywodraeth y Cynulliad neu Lywodraeth y DU:*

- Mae ymgynghoriad ynghylch y Cynllun i ostwng Ardrethi Busnes ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig yn cael ei gynnal ar hyn o bryd;
- Gwella'r broses o esemptiadau i'r Dreth Stamp i gynnwys pob busnes yn yr ardaloedd a ddynodwyd yn rhai difreintiedig;

- Cwmnïau Adfywio Trefol;
- Gwella Credyd Treth ar gyfer Ymchwil a Datblygu yn y rhanbarthau;

- Credyd Treth ar gyfer hyfforddiant mewn cwmnïau yn y rhanbarthau;

**Datblygiadau ers mis Mai**

Credyd Treth Buddsoddi mewn Cymunedau (CITC)

Erbyn hyn mae'r cynllun wedi clirio gweithdrefnau Cymorth Gwladol ac mae'n cael ei roi ar waith. Mae manylion am sut y caiff ei roi ar waith yn ddibynnol o hyd ar ymgynghori â sector Sefydliadau Ariannol sy'n Datblygu Cymunedau. (CDFI)

Bydd y Credyd Treth Buddsoddi mewn Cymunedau yn gymwys yn 504 o'r Rhanbarthau Etholaethol yng Nghymru, gan gynrychioli 60 y cant o'r boblogaeth. Mae rhestr llawn ohonynt yn yr Atodiad.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi cyfrifoldeb i Gyllid Cymru dros sefydlu Sefydliadau Ariannol sy'n Datblygu Cymunedau i Gymru gyfan er mwyn rhoi'r cynllun ar waith ledled Cymru. Mae gweithgor wedi ei sefydlu gan gynnwys cynrychiolwyr o'r rhwydwaith economi cymdeithasol. Gwelwyd cynnydd da hyd yn hyn. O'r amserlen rhagwelir y bydd y Sefydliadau Ariannol sy'n Datblygu Cymunedau yn cychwyn yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Byddai'r cynllun arfaethedig yn galluogi'r Sefydliadau Ariannol sy'n Datblygu Cymunedau i Gymru gyfan i weithredu fel "cyfanwerthwr", gan godi buddsoddiadau cymhellol y Credyd Treth Buddsoddi mewn Cymunedau o'r farchnad a'u cyfeirio at y Sefydliadau Ariannol sy'n Datblygu Cymunedau lleol. Dylai'r Sefydliadau Ariannol sy'n Datblygu Cymunedau dros Gymru gyfan fedru sicrhau bargenion gwell oherwydd gall chwilio am fuddsoddiadau mwy o faint na'r Sefydliadau Ariannol sy'n Datblygu Cymunedau lleol. Bydd mewn sefyllfa dda i ledaenu arfer gorau ymysg Sefydliadau Ariannol sy'n Datblygu Cymunedau lleol a hefyd i sicrhau nad yw'r farchnad yn gymhleth i fuddsoddwyr neu'r Busnesau Bach a Chanolig a allai dderbyn benthyciadau. Bydd ei sefyllfa o fewn Cyllid Cymru, a'r system cefnogi busnes Cymru yn ei alluogi i ddefnyddio arbenigedd presennol Cyllid Cymru.

SMART Cymru

Mae'r rhaglenni wedi eu trosglwyddo i Awdurdod Datblygu Cymru erbyn hyn. Mae *Cymru o Blaid Arloesi* y Cynllun Gweithredu ar gyfer Arloesi, yn cael ei ymgynghori tan 5 Chwefror 2003.

Cyflwynodd Awdurdod Datblygu Cymru ei gais ar gyfer diwygio'r Cymorth Gwladol i'r DTI yr

wythnos ddiwethaf, y cam cyntaf ar gyfer ennill cymorth gwladol o dan y fframwaith Ymchwil a Datblygu. Mae'r fframwaith yn hyblyg, yn caniatáu ar gyfer derbyn cymeradwyaeth eang, heb fod y cynlluniau wedi'u diffinio'n rhy gyfyng. Mae Awdurdod Datblygu Cymru yn amcangyfrif y bydd Comisiwn yr UE yn ymateb gydag unrhyw gwestiynau erbyn Mawrth 2003, a chaiff ei gymeradwyo tua Gorffennaf 2003. Rhag ofn y bydd yna unrhyw oedi, mae blwyddyn ychwanegol wedi ei neilltuo ar gyfer cyflwyno SMART a RIN (mae'r ddau ohonynt y tu allan i'r ystod arferol o gymorth gwladol a ganiateir).

Mae *Cymru'n Ennill* a *Cymru o Blaid Arloesi* (y cynllun gweithredu ar gyfer arloesi) yn nodi'r angen am gynlluniau gwario symlach. Wrth drosglwyddo'r rhaglenni hyn i Awdurdod Datblygu Cymru, ac ochr yn ochr â'r broses ymgeisio am gymorth gwladol, maent yn edrych ar strwythur y rhaglenni, gan anelu at ddarparu'r cynllun neu'r cynlluniau symlaf posibl, ar gyfer pob math o gwmnïau, o'r dyfeisiwr unigol i gwmni mawr.

Cymorth Rhanbarthol Dewisol (RSA)

Mae RSA yn chwarae rhan bwysig wrth hwyluso buddsoddiadau a dyma'r prif fath o gymorth sydd ar gael i fusnesau sy'n barod i fuddsoddi mewn ardaloedd yn y DU sy'n derbyn cymorth. Gweithredir RSA dan ganllawiau cymorth buddsoddi'r CE.

Yng Nghymru cymerwyd dau gam arwyddocaol i helpu i wneud RSA yn fwy perthnasol fyth i anghenion diwydiannau modern:-

- Cyn 2001 roedd y terfyn ar grantiau a roddir ar gyfer prosiect yn cael ei fynegi fel canran o wariant cyfalaf y prosiect hwnnw. Ond yn 2001 cymeradwyodd y CE gynigion i ganiatáu awdurdodau'r DU i roi 'cymorth ar gyfer creu swyddi'. Golyga hyn ein bod yn awr yn gallu dewis cymryd costau cyflogau i ystyriaeth wrth i ni gyfrif y cymorth ariannol rydym am ei roi i brosiectau buddsoddiadau newydd. Mae hyn wedi arwain at lefelau uwch o gymorth ar gyfer prosiectau â gwerth ychwanegol ac sy'n defnyddio llawer iawn o wybodaeth.

- Ers cyflwyno map newydd o'r ardaloedd sy'n derbyn cymorth ym mis Gorffennaf 2002, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael gwared â'r terfynau cost y swydd, a oedd yn arfer capio'r lefel o gymorth buddsoddi i £17,000 y swydd. Mae hyn yn golygu'n awr bod y cymorth buddsoddi potensial sydd ar gael yng Nghymru yn cael ei gyfyngu'n unig gan uchafswm cymorth y CE ar gyfer yr ardal honno. Effaith hyn yw cynyddu lefel y cymorth potensial sydd ar gael i fuddsoddwyr (er bod swm yr RSA a gynigir yn dal i ddibynnu ar yr egwyddor o'r isafswm sydd ei angen i alluogi'r prosiect fynd rhagddo).

Mae'r ddau fesur hwn wedi chwarae rhan sylweddol wrth sicrhau mai 2001-2001 oedd y flwyddyn orau i RSA yng Nghymru. Cynigwyd mwy o RSA i fusnesau yng Nghymru nac unrhyw ran arall o'r DU, ac fe'i derbyniwyd. Gwnaethpwyd cyfanswm o 270 o gynigion, ac

roedd cyfanswm y rhain gwerth dros £143 miliwn. Mae’r cyfanswm a fuddsoddwyd mewn prosiectau dros £623 miliwn a rhagwelir y bydd y prosiectau yn creu dros 9,000 o swyddi ac yn diogelu 4,000 arall.

Credyd Treth Ymchwil a Datblygu

Yn y papur ar 8 Mai cyfeiriwyd at y ffaith nad oeddem wedi gallu dwyn perswâd ar y Trysorlys i roi mwy o Gredyd Treth Ymchwil a Datblygu mewn rhanbarthau Amcan 1. Dywedais y byddwn yn bwrw ymlaen â'r syniad o roi fwy o Gredyd Treth Ymchwil a Datblygu ein hunain, er mwyn annog mwy o fusnesau i fynd i'r afael a'r gweithgaredd gwerthfawr hwn yng Nghymru.

Mae Cymru o Blaid Arloesi yn arwydd y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried y posibilrwydd o ddarparu swm "cyfatebol" i gredyd treth ymchwil a datblygu y DU, neu ddarparu rhyw fath o grant cyflenwol er mwyn annog ymchwilwyr i gwblhau eu gwaith yng Nghymru. Wrth gwrs, nid yw pwerau'r Cynulliad yn caniatáu darparu credyd treth ychwanegol fel y cyfryw. Dyma fater gweddol gymhleth ond bydd arbenigwyr ym maes trethi, cyllid y llywodraeth, a busnes yn ystyried opsiynau yn y misoedd nesaf.

Bydd credyd treth Ymchwil a Datblygu y DU, sydd bellach ar gael i bob cwmni - nid y busnesau maint bach a chanolig yn unig - yn cael ei hyrwyddo i bob busnes yng Nghymru, er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r manteision a chynyddu nifer y rhai sy'n ei ddefnyddio er mwyn sicrhau bod Cymru yn derbyn cymaint o gredyd â phosib er mwyn ariannu mwy o ymchwil.

Gostwng Trethi Busnes ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig yng Nghymru

Mae yna nifer o gynlluniau cymorth ardrethi ar gael er mwyn helpu i leihau pwysau ardrethi busnes. Cynlluniwyd rhai i dargedu naill ai busnesau bach neu fusnesau bach a chanolig. Dyma amlinelliad o'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sy'n talu ardrethi busnes:-

- Mae'r Cynllun Cymorth Trethi Gwledig yn helpu busnesau bach gwledig. O'r 1 Ebrill 2002 ymlaen, ymestynnwyd y Cynllun Cymorth Trethi Gwledig er mwyn sicrhau bod mwy o fusnesau gallu bod yn gymwys ar gyfer derbyn cymorth.
- Bydd busnesau sydd â Gwerth Ardrethol (GA) o £6,000 neu lai mewn anheddfan wledig cymwys, (sef poblogaeth o 3,000 neu lai) yn derbyn gostyngiad o 50% yn eu biliau ardrethi.
- Bydd tafarndai a gorsafoedd petrol sydd â GA o £9,000 neu lai, hefyd yn derbyn gostyngiad o 50%.
- Mae'r cymorth hwn yn orfodol.

- Mae gan awdurdodau lleol y rhyddid i ychwanegu 50% at y cymorth gorfodol gan sicrhau bod cyfanswm y cymorth a ganiateir bellach yn 100% o'r bil ardrethi.
- Gall y cymorth dewisol hwn gael ei gymeradwyo i fusnesau sydd â GA o hyd at £12,000,

ar yr amod bod y busnes yn chwarae rôl hanfodol yn y gymuned.

Cost Lleddfu Caledi

- Mae awdurdodau lleol yn rhydd i ganiatáu hyd at 100% ar gyfer busnesau sy'n wynebu caledi. Mae'n rhaid iddynt fod yn fodlon bod y cwmni yn wynebu caledi neu y byddant yn wynebu caledi os na fydd yn derbyn y cymorth lleddfu caledi.
- Mae'r cymorth hwn yn ddewisol ac o ganlyniad bydd gan pob awdurdod lleol ei ganllawiau ei hun.

Cymorth Elusennol

- Pan fo ardrethdalwr yn elusen neu'n ymddiriedolwr elusen gallant ddefnyddio cymorth gorfodol o 80% oddi wrth adrethi busnes.

- Mae gan awdurdodau lleol y rhyddid i ganiatáu 20% arall mewn cymorth grant dewisol.

Cymorth Eiddo Gwag

- Mae eiddo gwag yn derbyn gostyngiad gorfodol o 50% mewn ardrethi busnes (ar ôl i'r eiddo fod yn wag am 3 mis).

Eiddo a Gaiff ei Feddiannu'n Rhannol

- Gall unrhyw eiddo sy'n cael ei feddiannu'n rhannol dderbyn gostyngiad yn ei filiau ardrethi.

Cyffredinol

- Mae yna nifer o gynlluniau cymorth ar gael sydd wedi eu cynllunio i leihau baich ardrethi busnes.
- Yr ydym wedi defnyddio'n pwerau i ymestyn y cynllun cymorth trethi gwledig er mwyn sicrhau bod mwy o fusnesau'n elwa o'r cymorth.

- Yr ydym yn talu am gost y cymorth gorfodol ac yn talu am 90% o unrhyw gymorth ardrethi gwledig dewisol, a 75% o unrhyw gymorth dewisol arall a ganiateir gan yr awdurdod lleol.
- Wrth ymateb i'r cynigion yn ein dogfen ymgynghorol *Symleiddio'r System: Cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru* byddwn yn cydweithio'n agos â llywodraeth a busnes lleol i ddatblygu manylion a ffurf cynllun cymorth arderthi ar gyfer pob busnes bach yng Nghymru.
- Byddwn yn ceisio sicrhau pwerau i lunio is-ddeddfwriaeth drwy'r Mesur Llywodraeth Leol

er mwyn cyflwyno cynllun cymorth adrethi i fusnesau bach yng Nghymru, a fydd yn gwasanaethu'r gymuned fusnes yn y dull gorau posib.

Cynlluniau Peilot ar gyfer Hyfforddi

Yr ydym wedi rhoi'r achos gerbron y Trysorlys i weld cymhellion treth ychwanegol ar gyfer hyfforddiant mewn swydd, yn enwedig ar gyfer Busnesau maint Bach a Chanolig. Serch hynny, ni chafwyd cyhoeddiad hyd yn hyn.

Serch hynny, yr ydym wedi gweithredu er mwyn rhoi hwb i'r galw am hyfforddiant drwy gyflwyno cynllun peilot i asesu effeithiolrwydd a gwerth am arian ar gyfer darparu cynlluniau dysgu di-dâl hyd at Lefel 3 ar gyfer y rhai hynny sydd wedi'u cyflogi. Lansiwyd y cynllun Peilot hwn, o'r enw Prosiect y Gweithiwr sy'n Dysgu, yn yr hydref. Wedi ei leoli yn Llanelli, mae'n cael ei roi ar waith gan y Cyngor Cenedlaethol-ELWa a chaiff ei werthuso'n llawn. Mae prosiectau tebyg yn cael eu gweithredu yn Lloegr ond fe'u cyfyngir hwy i lefel 2.

Mae mesurau eraill y mae'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi eu cymryd yn cynnwys newidiadau pwysig i'r rhaglen Prentisiaeth Fodern, yn dilyn ymgynghoriad eang iawn gyda chyflogwyr a sefydliadau eraill. Cyflwynwyd y Diploma Sgiliau Modern i Oedolion, fel rhaglen unigryw a wnaed yng Nghymru, ac yr ydym wedi bod ar flaen y gad wrth ddileu cyfyngiadau oed ar gyfer Prentisiaethau Modern. Mae cyflogwyr wedi croesawu'r hyblygrwydd ychwanegol hwn. Mae'r gwaith o fynd i'r afael â diffygion sgiliau sylfaenol ar gyfer pob oed hefyd yn mynd yn ei flaen, ac yn ddiweddar lansiwyd yr Addewid Cyflogwyr i Sgiliau Sylfaenol, a byddwn yn annog pob cyflogwr i gofrestru ar ei gyfer, fel y gwnaeth y Cynulliad Cenedlaethol eisoes.

Cyfrifon Dysgu Cwmni

Mae ELWa yn treialu ail gam ei gynllun Cyfrifon Dysgu Cwmni (CLA) a gynlluniwyd i annog cyflogwyr i fuddsoddi mewn dysgu, yn arbennig felly mewn materion datblygu rheolwyr.

Datblygwyd y cynllun peilot oherwydd bod ar fusnesau angen cymorth ariannol sy’n fwy hyblyg, yn llai biwrocratig ac yn dod o ffynonellau cyhoeddus. Mae’r cynllun am daclo hyn trwy symud i ffwrdd o’r rhaglenni a chynlluniau gorchmynnol, a mabwysiadu fframwaith sy’n ddigon hyblyg i fodloni ystod o anghenion. Bydd ganddo ddull gweinyddu sy’n hydrin ond sydd hefyd yn fesuradwy ac yn atebol.

Mae’r CLA wedi’u hanelu‘n bennaf at fusnesau bach a chanolig, ac mae’r cymorth ar gael mewn tair prif ffordd: cyngor am ddim gan gynghorydd sgiliau i helpu busnesau i nodi materion sgiliau a datblygu; gweithgareddau datblygu rheolwyr arloesol; a defnyddio rhaglenni prif ffrwd ELWa. Dylid sefydlu ryw 75 cyfrif yn y flwyddyn ariannol hon.

**Adroddiad Cyn y Gyllideb - Datganiad y Canghellor**

Meysydd i Fentro ac Esemptiadau Treth Stamp

Mewn cymunedau lle mae nifer y di-waith yn uchel, bydd mwy o weithgareddau economaidd a mentrau yn arwain at fwy o swyddi. Yn adroddiad Cyn y Gyllideb 2001, gwnaeth y Canghellor greu 2000 o wardiau drwy gydol y DU, lle cafodd yr holl drafodion eiddo o dan £150,000 eu esemptio o'r Dreth Stamp. Mae rhestr o'r 363 o ranbarthau etholaethol yng Nghymru, sy'n cynrychioli 47 y cant o'r boblogaeth, ynghyd â'r dulliau ar gyfer dewis yr ardaloedd hyn ar gael yn yr Atodiad.

Mae Adroddiad Cyn y Gyllideb 2002 wedi ymestyn yr egwyddor hon. Yn dilyn y gymeradwyaeth i Gymorth Gwladol a ddisgwylir ym mis Ionawr, o Ddiwrnod y Gyllideb ymlaen, bydd treth stamp yn cael ei ddiddymu ar gyfer yr holl drafodion eiddo yn yr ardaloedd hyn.

Llacio ar y Cyfyngiadau Cynllunio mewn Ardaloedd Menter

Mae nifer o fesurau'n cael eu hystyried er mwyn galluogi'r system gynllunio i fabwysiadu dull o weithredu mwy hyblyg er mwyn annog busnes mewn Ardaloedd Menter. Bydd y newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth gynllunio yn ceisio cyflwyno Gorchmynion Datblygu Lleol y gall awdurdodau cynllunio eu defnyddio i lacio'r rheolaeth gynllunio mewn Ardaloedd Menter pan fyddant wedi eu cysylltu i bolisïau yn eu cynlluniau datblygu lleol. Bydd hefyd rhaid i awdurdodau cynllunio dargedu adnoddau yn well o 2003-6 er mwyn gwella gwasanaethau cynllunio i ddatblygwyr.

Cwmnïau Adfywio Trefol

Mae Cwmnïau Adfywio Cymunedol yn gwmnïau annibynnol sy'n cydweithio â'r sector preifat - ochr yn ochr â phartneriaid y sector cyhoeddus megis awdurdodau lleol a'r RDA - er mwyn datblygu a gweithredu strategaethau adfywio mewn ardaloedd trefol. Sefydlwyd Cwmni Adfywio Cymunedol Casnewydd ar 1 Tachwedd. Mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar y posibilrwydd o roi cymorth ardrethi ar gyfraniad cwmnïau i Gwmnïau Adfywio Cymunedol ac erbyn hyn mae'n bwriadu cyflwyno cymhelliant treth newydd er mwyn annog cyfraniadau tuag at gostau gweithredu Cwmnïau Adfywio Cymunedol. Bydd hyn yn sicrhau bod Cwmnïau Adfywio Cymunedol yn chwarae rhan effeithiol wrth ysgogi adfywio a mentrau newydd yn nifer o ardaloedd trefol y DU.

Cymorth ar gyfer y Di-waith Hirdymor mewn Ardaloedd Gwledig

Mae'r cynigion hyn wedi eu targedu ar gyfer y di-waith hirdymor ac mae'n cynnwys rhaglen o gyfweliadau, hyfforddiant a chwiliadau gwaith, gyda chefnogaeth budd-daliadau. Mae'r fenter yn parhau yn y camau cynnar iawn ac nid oes mesurau pendant ar ei gyfer. Caiff mwy o

wybodaeth ei darparu maes o law pan fydd y cynigion wedi cael eu datblygu'n becyn mwy sylweddol.

Ymgynghoriad ar Gymhellion Treth i Annog Gofal Plant a Gefnogir gan y Cyflogwr

Yn ei ddatganiad ar 27 Tachwedd, dywedodd y Canghellor y byddai Llywodraeth y DU yn adeiladu ar y cynnydd o £100 yr wythnos mewn tâl mamolaeth o fis Ebrill ymlaen a'r tâl tadolaeth a mabwysiadu cyntaf erioed; y credydau treth newydd; a’r Strategaeth Gofal Plant Cenedlaethol. Bydd y Llywodraeth yn ystyried diwygiadau pellach: cymhellion treth ac yswiriant gwladol er mwyn ehangu gofal plant a gefnogir gan y cyflogwr; talu credyd gofal plant ar gyfer gofal cymeradwy yn y cartref gan ofalwyr nad ydynt eisoes yn warchodwyr plant; a mwy o hyblygrwydd i ganiatáu rhieni i gymryd amser o'r gwaith gan gynnwys caniatáu amser i dadau fynychu dosbarthiadau gofal cyn-geni. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at fanylion pellach.

**Casgliadau**

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys y papur hwn.

**Andrew Davies**
**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**
**Rhagfyr 2002**

*Mae fersiwn Saesneg y papur hwn yn cynnwys atodiadau. Yn anffodus nid yw'r atodiadau hyn ar gael yn Gymraeg.*